TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

AAT Uned Systemau a Rheoliadau Cyfrifyddu Mewnol Lefel 4

Yn gryno

Mae'r Diploma AAT Lefel 4 mewn Cyfrifeg Broffesiynol yn sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer cyflogaeth o fewn cyd-destun cyfrifeg ehangach. Mae'r cwrs hwn yn ei gyfanrwydd yn cwmpasu pynciau a thasgau cyfrifyddu a chyllida ar lefel uchel.

Rydych chi'n prynu'r uned Systemau a Rheoliadau Cyfrifyddu Mewnol sy'n rhan o gwrs AAT Lefel 4 Diploma mewn Cyfrifyddu Proffesiynol.

Mae'r uned hon yn eich addysgu chi i ystyried rôl a chyfrifoldebau swyddogaeth cyfrifyddu, gan gynnwys anghenion prif randdeiliaid sy'n defnyddio adroddiadau ariannol i wneud penderfyniadau. Byddwch chi'n adolygu systemau cyfrifyddu i adnabod gwendidau mewn gweithrediadau yn y dyfodol.

Byddwch chi'n cymhwyso nifer o ddulliau dadansoddi i werthuso goblygiadau unrhyw newidiadau i weithdrefanu gweithredu.

Mae'n rhaid i strwythur y swyddogaeth gyfrifyddu, sy'n amrywio yn amodol ar faint y sefydliad, gydymffurfio â gofynion statudol. Byddwch chi'n dysgu i adnabod dulliau rheoleiddio, asesu eu heffeithiau o ran bod yn gost-effeithiol, yn ddibynnol ac yn brydlon a sicrhau bod yr holl

swyddogaethau yn addasu eu harferion gwaith i fodloni gofynion mewn ffordd foesegol a chynaliadwy.

Mae technoleg yn newid y ffordd y caiff gwybodaeth gyfrifyddu ei phrosesu ac mae'r uned hon yn gofyn am wybodaeth am egwyddorion sylfaenol dadansoddeg ddata a deallusrwydd artiffisial (AI), a all gael ei defnyddio fel ffordd amgen i gasglu a dadansoddi gwybodaeth. Mae Cyfrifeg Cwmwl yn newid y ffordd mae cyfrifwyr yn gweithio a chaiff delweddu, gan gynnwys dangosfyrddau, ei defnyddio'n gynyddol i gyflwyno gwybodaeth sy'n haws i randdeiliaid ei deall. Mae achosion o dor-diogelwch data yn cael eu hadrodd yn y wasg yn rheolaidd felly, mae'n hanfodol eich bod chi'n ymwybodol o bwysigrwydd cadw'r holl ddata yn ddiogel gan roi ystyriaeth i natur gyfrinachol y data y byddwch chi'n ei brosesu fel rhan o'ch rôl o ddydd i ddydd.

Yn olaf, byddwch chi'n gwerthuso effaith y newidiadau ar y system a defnyddwyr y system gyfrifyddu i'ch cynorthwyo chi i addasu'r gwelliannau arfaethedig.

Mae hwn yn gwrs 'rholio-ymlaen / rholio i ffwrdd' gyda dyddiadau cychwyn hyblyg. Rydym yn recriwtio myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn.

Mae hwn hefyd yn gwrs dysgu cyfunol (cymysgedd o wyneb yn wyneb traddodiadol gydag athro mewn ystafell ddosbarth a gweithgareddau dysgu gan ddefnyddio technolegau digidol o gartref).

Mae'r cwrs hwn yn symud ymlaen ymhellach o Ddiploma Lefel 3 mewn Cyfrifeg a bydd yn eich galluogi i ennill sgiliau pellach i symud ymlaen o fewn y maes cyfrifeg.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych wedi cwblhau'r Diploma Uwch AAT Lefel 3 mewn Cyfrifeg yn llwyddiannus ac eisiau parhau i feithrin eich sgiliau cyfrifyddu.

... Ydych chi am fynd ymlaen i ddod yn aelod llawn yr AAT a / neu fynd ymlaen i astudio am statws cyfrifydd siartredig.

... Ydych chi am gychwyn eich busnes eich hun drwy gynllun aelodau trwyddedig yr AAT.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn gwella'r sgiliau a ddatblygwyd gennych o Ddiploma Lefel 3 mewn Cyfrifeg ac yn

ennill sgiliau cyfrifyddu a chyllid proffesiynol gydol oes, gan eich galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eich cyfleoedd yn eich gyrfa gyfrifyddu.

Mae gan yr AAT Lefel 4 mewn Cyfrifeg dair uned orfodol:

Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol – byddwch yn dysgu am ddrafftio datganiadau ariannol ar gyfer endidau sengl a safonau cyfrifyddu perthnasol a chyfuno cwmnïau cyfyngedig. Byddwch hefyd yn ennill y sgiliau i ddehongli'r datganiadau ariannol, trwy ddefnyddio dadansoddi cymhareb.
Cyfrifyddu Rheoli Cymhwysol – byddwch yn dysgu sut i weithredu prosesau cynllunio sefydliadol o fewn sefydliad, yn defnyddio prosesau mewnol i wella rheolaeth weithredol, a thechnegau i wneud penderfyniadau tymor byr a hirdymor.
Systemau a Rheolaethau Cyfrifo Mewnol – Byddwch yn dangos eich dealltwriaeth drwy werthuso rheolaethau mewnol a systemau cyfrifo o fewn sefydliad, ac yn gwneud argymhellion ar unrhyw wendidau a ddarganfyddwch.

Trwy gyflwyno cais yma, rydych chi'n prynu uned Systemau a Rheoliadau Cyfrifyddu Mewnol, hefyd, bydd angen i chi brynu'r unedau Cyfrifeg Rheolaeth Gymhwysol a Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol i gwblhau pob un o'r unedau craidd ar gyfer cymhwyster AAT Lefel 4.

Mae gan yr AAT Lefel 4 mewn Cyfrifeg dair uned orfodol:

Drafftio a Dehongli Datganiadau Ariannol – byddwch yn dysgu am ddrafftio datganiadau ariannol ar gyfer endidau sengl a safonau cyfrifyddu perthnasol a chyfuno cwmnïau cyfyngedig. Byddwch hefyd yn ennill y sgiliau i ddehongli'r datganiadau ariannol, trwy ddefnyddio dadansoddi cymhareb.
Cyfrifyddu Rheoli Cymhwysol – byddwch yn dysgu sut i weithredu prosesau cynllunio sefydliadol o fewn sefydliad, yn defnyddio prosesau mewnol i wella rheolaeth weithredol, a thechnegau i wneud penderfyniadau tymor byr a hirdymor. · Systemau a Rheolaethau Cyfrifo Mewnol – Byddwch yn dangos eich dealltwriaeth drwy werthuso rheolaethau mewnol a systemau cyfrifo o fewn sefydliad, ac yn gwneud argymhellion ar unrhyw wendidau a ddarganfyddwch.

Er mwyn ennill y cymhwyster Lefel 4 mewn Cyfrifeg, bydd angen i chi gwblhau pob un o'r pedwar modiwl uchod, gallwch brynu pob modiwl ar wahân.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, ac ar ôl bodloni meini prawf yr AAT, gallwch wneud cais am aelodaeth AAT lawn a fydd yn eich galluogi i ddefnyddio'r llythrennau dynodi MAAT ar ôl eich

enw.

Fodd bynnag, canlyniad sylfaenol a phwysicaf Diploma Lefel 4 mewn Cyfrifeg Broffesiynol yw'r potensial i arwain at amrywiaeth eang o swyddi mewn cyfrifeg a chyllid sy'n talu'n dda, ac mae rhai ohonynt yn cynnwys:

Technegydd Cyfrifyddu Proffesiynol
Archwilydd Cynorthwyol
Cyfrifydd Rheoli Cynorthwyol
Dadansoddwr Masnachol
Rheolwr y Gyflogres
Uwch Geidwad Llyfrau
Uwch Swyddog Ariannol
Goruchwyliwr Cyfrifon Taliadwy a Threuliau
Cyfrifydd Ariannol Cynorthwyol
Cyfrifydd Costau
Cyfrifydd Asedau Sefydlog
Rheolwr Treth Anuniongyrchol
Rheolwr Taliadau a Bilio
Uwch Gyfrifydd y Gronfa
Uwch Weinyddwr Ansolfedd
Cyfrifydd TAW

Bydd cwblhau'r cwrs hwn hefyd yn eich cynnig llwybr cyflym at statws cyfrifydd siartredig gan y bydd yr AAT yn rhoi eithriadau hael o holl gyrff siartredig ac ardystiedig y DU i chi.

Costau eraill:

Llyfrau tua £30 y modiwl

Cofrestriad AAT (yn daladwy i'r AAT) £240